# Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer

**9/3/26**

**Presennol:** Gwyn Roberts (Cadeirydd), Eleri Jones (is-Gadeirydd), D Clwyd Davies, Emyr Jones, Tyly Roberts, Geraint Roberts, W D Williams,

Cynghorydd Gwynedd: Alan Jones Evans

Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd yr aelodau; nid oedd ymddiheuriadau.
2. **Cyhoedd** – neb yn bresennol
3. **Buddiant** - Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. **Cofnodion** - Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion 12/01/26.
5. **Materion yn codi:** derbyniwyd cydnabyddiaeth o sylwadau Cyngor Cymuned Llangywer parthed cynlluniau fferm wynt Moel Fach.
6. **Cyngor Gwynedd** – Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Alan Jones Evans. Soniodd am y gwasgu parhaus ar Gyllideb Cynghorau Sir er bod y costau'n parhau i godi. Oherwydd y cytundeb a fu rhwng y Llywodraeth Lafur yng Nghymru a Phlaid Cymru, llwyddwyd i haneri'r toriadau a ragwelwyd i gychwyn. Bu asesiad o gyflwr ffyrdd gwledig y plwyf ac mae rhai yn ardal Rhosygwaliau wedi eu hadnabod fel rhai sydd yn derbyn sylw. Mae'r Adran berthnasol yn ymwybodol o broblemau ail-gylchu yng Nghwm y Glyn oherwydd tai haf ac wrthi'n gweithredu ar hyn.
7. **Materion Lleol** – Tynnwyd sylw at gam-ddefnydd o'r maes parcio fin nos wrth i geri cael eu gyrru dros y darnau gyda gwair. Cytunwyd i sôn wrth yr Heddlu ac wrth Parc Cenedlaethol Eryri. Soniwyd fod faniau a loriau cario nwyddau yn cael trafferthion yn Rhosygwaliau ac ar ffyrdd gwledig Llangywer gan eu bod yn dilyn côd-post yn hytrach na chyfeiriad manwl ac o ganlyniad yn colli eu ffordd.
8. **Cwmni Pum Plwy Penllyn** - Derbyniwyd adroddiad cynrychiolwyr a soniwyd yn arbennig am lwyddiant y car cymunedol yn cludo'r henoed i apwyntiadau.
9. **Un Llais Cymru** - Derbyniwyd Adroddiad y Clerc o'r cyfarfod arbennig, ac o Bwyllgor Ardal 14/1/26.

***10.* Materion Ariannol**

i. Derbyniwyd Adroddiad Awdit Cymru 2023-24, ac Adroddiad 2024-25.

- Nodwyd barn yr Awdit fod y Cyngor yn ychwanegu llwybr y fynwent fel ased i'r rhestr eiddo; nid oedd y Cynghorwyr yn derbyn bod gwella llwybr y fynwent yn ei drawsnewid i fod yn "eitem o eiddo".

- Nodwyd fod Cynllun Hyfforddiant y Cyngor i'w weld yn eglur ar y wefan, er nad oedd yr Awdit wedi gallu ei ganfod nac wedi holi'r Clerc.
- Nodwyd fod y Cyngor yn rhoi hawl i'r Clerc dalu anfonebau Cytundebau / Prosiectau a gytunwyd arnynt pan fydd yr anfonebau yn cyrraedd y Clerc - heb fod angen aros tan eu trafod eto mewn cyfarfod (a allai olygu aros hyd at 3 mis cyn eu talu).

ii. Ariannol - Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol diweddaraf a chytunwyd i dalu'r Clerc am ei gwaith. Nodwyd bod y Cynghorwyr i gyd wedi gwrthod y Lwfans y mae ganddynt yr hawl iddo.

iii. Derbyniadau a thaliadau: Nodwyd y talwyd i Boyns fel a gytunwyd yn flaenorol am ddarparu wi-fi (£46.80 bob mis debyd uniongyrchol). Talwyd £743.49 am yr offer ac am eu gosod ar gyfer cyswllt y band lydan i'r Neuadd (*cais Pwyllgor y Neuadd oedd hyn a chytunwyd i'r cais yng nghyfarfod Tachwedd 2025)*.

Cytunwyd i dalu £58 tal aelodaeth 2026-27 Un Llais Cymru

iv. Grant Gwynedd Ni - derbyniwyd £93 am y goleuadau diogelwch, a llythyr oddi wrth Cyngor Gwynedd yn datgan y cwblhawyd holl ofynion ariannol y grant.

v. Ceisiadau am nawdd ariannol:

Y Neuadd – cyfraniad eleni a gytunwyd ym mis Tachwedd 2025 oedd talu am osod y wi-fi a'r offer priodol yn y Neuadd; cytunodd y Cyngor ar yr un pryd i dalu'n fisol am y gwasanaeth band lydan fel a nodwyd uchod.

Cytunwyd i ddyrannu fel a ganlyn:

Y Cyfnod £50
CFFI £100
Cymdeithas Dreftadaeth Y Bala a Phenllyn £50
Llên y Llannau £20
Apêl Urdd Meirionnydd £50
Apêl Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn £30

**11. Asedau'r Cyngor:**

i. Di-ffib Llangywer a Rhosygwaliau – mae gwiriadau yn cael eu gwneud yn gyson gan y Cynghorwyr Clwyd Davies a Tyly Roberts.

ii. Y fynwent a'r ffioedd. Trafodwyd y ffioedd a chytunwyd i gyd-fynd â ffioedd mynwent Llanuwchllyn (*gweler manylion ar y wefan*).

12. **Cynllunio:** rhannwyd galwad am safleoedd posib ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Eryri 2026-41. Y dyddiad cau yw 11/5/2026.

**13. Gohebiaeth**

i. Cyngor Gwynedd: Cronfa Cefnogi Cynghorau Gwynedd – bydd grant newydd ar gael eleni. Cytunwyd i ofyn i Bwyllgor y Neuadd drefnu noson i gyflwyno pob peth a bwrcaswyd trwy haelioni grant Gwynedd Ni (Cyngor Gwynedd ) ac i roi canllawiau ar eu defnydd.. Ar yr un pryd gellir ymgynghori ar ddymuniadau trigolion ar wario grant eleni.
ii. Un Llais Cymru: Hyfforddiant “Gwella ein lleoedd lleol”
iii. Rhaglen Dathlu Gwlân 6/3/26 Glanllyn 1.00-5pm; 5-7.00pm

14. **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 11/5/26, 7.30pm yn y Neuadd Bentref. Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol o flaen cyfarfod arferol y Cyngor.

Cyhoedd: *Mae croeso i’r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor: cysyllter â’r Clerc.*

Darperir cyfle ar yr Agenda i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o’r cyhoedd ar fater sydd ar yr Agenda – *gweler y Rheolau ar y wefan, neu cysyllter gyda’r Clerc*.

*Mae’r Cyngor yn caniatáu i’r Clerc yn unig recordio’r Cyfarfod ar gyfer sicrhau cywirdeb y Cofnodion drafft.*

.

Arwyddwyd……………………………………… (Cadeirydd)_______/____/________ …………………………….(Clerc) 